# V

# COFIO'R PERERINION

**Pileri'r Achos mewn un cyfnod**

Ni fyddai hanes unrhyw gapel neu eglwys yn gyflawn heb gyfeirio at rai o bileri'r Achos – rhai o weithwyr y winllan. Pa mor weithgar a chydwybodol bynnag fo gweinidog, ni fedr gyflawni ei ddyletswyddau heb gymorth. Wrth gydweithio y gellir sicrhau bod yr eglwys yn cyrraedd ei hamcan ac yn gwasanaethu'r gymdeithas yn effeithiol. Yn ogystal â'r swyddogion, megis ysgrifennydd a thrysorydd, ceir diaconiaid ac ymddiriedolwyr mewn Capel Annibynnol. Hwynt-hwy sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r gweinidog ymhob agwedd ar waith yr eglwys. Felly, teg yw cyfeirio at rai o'r llafurwyr yn y winllan hon:

**Joshua Jones**

Roedd enw Josi'r gof yn adnabyddus i lawer ardal, ond yn Esgairdawe y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Trigai Joshua gyda Mari, ei briod, yng Nglantawe. Mab ydoedd i Dafydd a Nel 'R Efailfach, Rhydcymerau, – cymeriadau a bortreadir yn fyw iawn gan D.J. Williams yn ei gyfrol, *Hen Wynebau.*

Fel ei dad 'roedd gan Josi ddawn arbennig i ddethol geiriau ar lafar, a diddorol oedd ymddiddan ag ef. Er hynny, 'roedd yn dra gwahanol i'w dad a oedd yn hollol anllythrennog. Yng ngeiriau D.J. Williams,

> Ofnai Dafydd yn ddiau, pe dysgasai ddarllen fel y gwnaethai Nel ei wraig a llawer un arall mewn oed yng ngwres crefyddol canol y ganrif ddiwethaf, mai'r peth nesaf a ddeuai i'w ran fyddai'r Diwygiad ei hun. A pha flas fyddai ar fywyd wedyn i un o'i fath ef?[1]

Nid felly Josi. Roedd yn ddarllenwr praff, yn fardd a llenor. Gwyddai sut i drin geiriau. Roedd yn gerddor hefyd. Pe bai wedi cael manteision addysg ac wedi dringo'n uchel a chael

swydd bwysig, fe fyddai hen efail y gof dipyn tlotach hebddo. Medrai lunio brawddeg dda o air gosodedig, gan roi'r ferf ar y dechrau. Dyma enghraifft o'i eiddo, o'r gair 'Cenedl' – 'Cadw erbyn newyn enillion dy law'. Enillodd lawer cadair mewn Eisteddfodau led-led y sir, o dan y ffugenw 'Tel Tawe'. Dyma ganlyniadau'r cyfansoddi wrth olau cannwyll wedi diwrnod caled o waith yn yr efail. Gwelir un o'i gadeiriau ym mhulpud Capel Esgairdawe heddiw, – 'Cadair Eisteddfod Gadeiriol Sant Teilo, Brechfa ym 1926'. Dyma un o'i roddion i'r Deml a fynychai mor gyson.

Bu'n aelod gweithgar yno, yn ddiacon, ymddiriedolwr, codwr canu, arolygwr ac athro'r Ysgol Sul am flynyddoedd lawer. Meddai ar bersonoliaeth ddihafal. Pan fyddai ar ei liniau mewn Cwrdd Gweddi, deuai geiriau diwinyddol o'i enau – geirfa bur wahanol i'r un a ddefnyddiai yn yr efail pan âi pethau o chwith wrth bedoli ambell ebol gwyllt. Roedd Josi fel pe bai'n synhwyro'r adnod, 'Sancteiddrwydd a wedda i'th Dŷ, O Arglwydd, byth', a welir ar y mur y tu ôl i'r pulpud mewn rhai capeli. Rhannodd y gof ei brofiadau â sawl cenhedlaeth o blant yn yr Ysgol Sul. Mynnai ddehongli ystyr ddyfnaf pob adnod a byddai'r disgyblion dipyn cyfoethocach yn ymadael â'r dosbarth wedi gwrando ar ambell ddadl frwd. Aed oddi yno'n aml heb gydweld ar bynciau dyrys y Gair.

Nid yn unig ar y Sul y gwelwyd gwerth y gof amryddawn yng Nghapel Esgairdawe. Golygfa gyffredin oedd ei weld yn cyrchu yno ar brynhawngwaith gyda phecyn o offer ar ei gefn. I beth, tybed? Roedd angen gwneud rhywbeth i hwyluso'r aelodau ar y Sul. Unwaith, symudodd y lampau olew newydd a oedd ar y pulpud a'u gosod wrth waelod yr oriel – un ar bob ochr. Dyma rywbeth bendithiol i'r sawl oedd â'i lygaid yn dechrau pylu ac yn eistedd oddi tanynt yn oedfa'r hwyr. Wedyn, gosododd yr hen lampau yn ôl ar y pulpud – rhai y medrai'r pregethwr eu symud fel y byddai'r galw am hynny. Dro arall, â'i yno i sicrhau fod drws y capel yn agor a chau'n hwylus. Eto, beth bynnag a wnai, yn ôl ei fympwy ei hun, ni feddyliai neb am ei 'ddwyn o flaen ei well' a'i gyhuddo am wneud y pethau hyn heb ganiatâd yr eglwys.

Yn wir, cymeriad gwreiddiol iawn oedd Josi. Yn y Gwanwyn, pan fyddai'r cloc wedi'i droi awr ymlaen ar nos Sadwrn, cerddai i mewn yn hamddenol i'r Oedfa Gymun drannoeth,

a hynny erbyn tri a'r Oedfa wedi dechrau am ddau o'r gloch. Ei eglurhad am hyn oedd mai amser Duw a ddilynai ef ac nid amser dyn. Dyna beth oedd teyrngarwch! Llafuriai'n ddiwyd a chyson yn yr efail gan weithio am ddim neu'r nesaf peth i ddim. Gŵr ymarferol ydoedd a phan gafwyd organ i gynorthwyo'r gân ym 1939, fe'i gosododd yn y sedd fawr. Yno y mae hyd heddiw. Er mai trin haearn oedd gwaith Josi, gwnaeth sedd o bren i'w gosod ar y sedd fawr i alluogi'r organyddion i fod yn ddigon uchel i gyflawni eu tasg. Na, doedd honno ddim yn tycio. Felly, daeth â chadair bwrpasol o'i gartref. Torrodd ei choesau ôl fel y byddent yn ffitio'u lle ar ben y sedd fawr. Dyma lwyddo'r tro hwn ac erys yno hyd heddiw. Bu'n esmwyth a phwrpasol, am hanner canrif, i'r organyddion.

Ni freintiwyd ei briod ag iechyd corfforol yn ystod y blynyddoedd hyn. Deuai'r meddyg teulu i'w gweld yn weddol gyson. Cyfnod talu am wasanaeth meddygol ydoedd a dichon iddynt ill dau orfod hepgor moethau dianghenraid er mwyn cwrdd â'r gofynion hyn. Wedi ei chladdu ym 1949, parhaodd Josi gyda'i ffyddlondeb i'r capel. Daliodd ati i ddilyn ei grefft fel gof ac fel bardd a llenor hefyd. Ond, bellach, gan ei fod yn byw ar ei ben ei hun, ceisiai arbed llawer o waith tŷ drwy ddefnyddio pethau cyffredin a phwrpasol. Ei liain bwrdd oedd ei bapur dyddiol. Gwnai'r un papur y tro am rai dyddiau a byddai'n darllen a bwyta ar yr un pryd. Drwy hynny, fe dreuliai lawer orig wrth y bwrdd gan dreulio'i fwyd yn aml cyn codi i fynd at ei orchwylion.

Dim ond y sawl sy'n byw ar ei ben ei hun sy'n gwybod am ambell anhawster beunyddiol hefyd. Mae'n wir fod llawer yn ymweld â'r efail yn ystod y dydd, ond pan na fyddai help gerllaw, byddai cymorth ambell declyn neu ddyfais yn hwyluso bywyd y gof. Pan fydd y cyhyrau yn caniatáu, gorchwyl hawdd yw gwisgo cotiau ond pan oedd Josi dros ei bedwar ugain oed bu hynny'n dipyn o broblem iddo. Dichon mai effaith natur ei waith caled yn yr efail ydoedd. Beth bynnag, fe'i gorchfygodd. Sicrhaodd fachyn hir o dan nenfwd ei ystafell fyw a defnyddiai declyn pwrpasol i ddal ei got i fyny wrtho. Roedd hyn yn ei alluogi i wisgo'r ail lawes heb drafferth.

Treuliodd wythnosau olaf ei oes yng nghartref ei nith yng Nghwm-gors. Bu farw ym 1957 pan oedd bron â chyrraedd ei bedwar ugain a chwech mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym

mynwent Capel Rhyd-y-bont, Llanybydder. Collodd Eglwys Esgairdawe arweinydd yng ngwir ystyr y gair. Ni ddaeth neb i lanw'i le yn y capel, yn yr efail nac yn yr ardal. Bu'r fro yn dlotach o'i golli. Dyma gerdd goffa iddo gan Thomas Jones, Gwar-coed, un o'i gyd-ddiaconiaid:

**I GOFIO JOSI'R GOF**

Ciliodd y crefftwr a phrudd yw'r Cwm,
A mud yw'r eingion a'r morthwyl trwm;

Nid oes wrth bentan yr efail oer
Ond sêr di-siarad a gwelw loer.

Distaw yw'r glicied ar glwyd yr ardd
A gwag yn awr yw cadair y bardd.

Tawodd y weddi wrth Orsedd Gras
A chloff yw'r emyn heb bwysau'r bas.

Os llonydd heddiw yw braich y Go
Bydd clwydi'r ardal ar echel dro;

A gwelir ei wên ar y braenar llwm
Yn sglein yr arad ar frest y cwm.

Ni flysiodd erioed am drafod aur,
Ond hoffai drwsio pedolau ffair.

Â'i law agored – hen gyfaill plant,
Bydd enw 'Josi' yn hir ar fant;

Huawdl ym Methel y bydd o hyd
Mewn cân a gweddi a deigryn mud.

Fe garodd feibion a merched Sir Gaer,
Ond ei ffrind anwylaf oedd Mab y Saer.

"Cyfaill Oes"[2]

**Thomas L. Jones**

Fel Tom Llundain yr adwaenai pawb yn yr ardal y gŵr meddylgar hwn, er mai Thomas Lewis Jones oedd ei enw llawn. Ie, meddylgar yw'r ansoddair gorau i'w ddisgrifio. Byddai'n meddwl llawer cyn rhoi ei farn ar unrhyw fater. Yna, wedi hir fyfyrio, deuai syniadau ysgolheigaidd o'i enau, er na chafodd fawr o addysg erioed, ar wahân i'r addysg elfennol a geid mewn Ysgol Fwrdd ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Fferm gerllaw Tafwys Fechan yn ardal Esgairdawe yw Llundain Fechan. Gellid

tybio fod Tom wedi byw ar un adeg yn y brif ddinas fawr. Na, gŵr yr ardaloedd gwledig oedd ef ac ymfalchïai yn ei wreiddiau.

Bu'n ddiacon yn y capel am ddeugain namyn un o flynyddoedd, ac yn ysgrifennydd am dros ugain mlynedd. Pan deimlodd effeithiau henaint yn ymaflyd ynddo a chryndod wedi meddiannu ei law wrth 'sgrifennu, ni roddodd y gorau i'w swydd ar unwaith. Onid gŵr meddylgar oedd hwn? Felly, sicrhaodd gymorth un o ferched ifainc yr eglwys i gyflawni'r gwaith. Ymhen rhai blynyddoedd, ac yntau wedi synhwyro fod gan yr eglwys rywun i gymryd at y swydd, penderfynodd 'roi'r ffidil yn y to'. Hysbysodd yr aelodau o'i fwriad cyn diwedd 1955, a thrwy bleidlais, etholwyd ei gynorthwy-ydd yn ysgrifenyddes. Ymaflodd hithau yn ei gwaith ar y laf o Ionawr, 1956, ac fe deimlodd fel y gwnaeth yr Apostol Paul, – 'Eraill a lafuriasant a ninnau a aethom i mewn i'w llafur hwynt'. Cafodd yr ysgrifenyddes newydd gefnogaeth wir gan ei rhagflaenydd. Oedfa Gymun oedd honno, ddechrau 1956, ac arhosodd Tom yn y sedd fawr ar ddiwedd yr oedfa er mwyn rhoi cyfarwyddiadau i'w olynydd ynglŷn â'r Gofrestr, pe bai angen am hynny.

Dangosodd garedigrwydd ymarferol tuag at yr Achos ar fwy nag un achlysur. Ym 1953, rhoddodd ef a'i briod, Sarah, ddarn o dir i'w ddefnyddio'n orweddfan i'r aelodau. Roedd yr hen fynwent o amgylch y capel wedi llanw bellach, ac yn bur anodd i'w throedio ar ddydd angladd oherwydd ei bod mor serth. Mae'r fynwent newydd yn fwy gwastad, mewn man cyfleus yr ochr draw i'r heol, gyferbyn â'r capel. Cafwyd gwasanaeth Cysegru ym mis Gorffennaf, 1953 sy'n dal yn fyw ar gof llawer o'r aelodau. Yr hyn sy'n drist yw'r ffaith mai David William, mab Tom a Sarah Jones oedd y cyntaf i'w gladdu yn y fynwent newydd. Hunodd yng Ngorffennaf, 1956.

Yn ystod Haf 1964, gosodwyd trydan yn y capel a'r festri ond ni fu'r gost yn faich ar yr aelodau fel y dengys geiriau'r gweinidog, y Parchedig Giraldus Jones yn ei anerchiad yn Adroddiad y flwyddyn honno: 'Llawenydd mawr i ni, fel aelodau, ydoedd profi unwaith eto o haelioni Mr. Tom L. Jones. Talodd am y draul o osod trydan yn y capel a hynny er cof am un annwyl iddo ef, sef Sarah, ei briod'. Hwylustod oedd cael defnyddio golau a gwres trydan, am y tro cyntaf, yn yr Ŵyl Ddiolchgarwch ar Hydref 7fed, 1964.

Pan ailagorwyd y capel ar Fehefin lleg, 1967, wedi ei

adnewyddu, Tom Llundain oedd yr aelod hynaf. Felly, i'w ran ef y daeth y gorchwyl o agor drws y capel a hynny 'yn wyneb haul llygad goleuni'. Gwerthfawrogai'r anrhydedd honno.

Gyda dyfodiad y tractor i ddisodli'r ceffylau ar ffermydd y fro ni fentrodd llawer o'r hynafgwyr ar y gorchwyl o'i yrru. Nid felly Tom Jones. Magodd ef ddigon o hunan-hyder i drafod y peiriant tynnu, dideimlad hwn. Yn ôl ei eiriau ei hun, aeth ati i lyfnu un o'i gaeau gwair un diwrnod heb fod neb yno i'w hyfforddi a'i gynorthwyo, gan ddefnyddio'r tractor. Cafodd gyfle i'w lywio cyn hynny yng nghwmni rhywun arall a thybiai ei fod yn feistr arno. Aeth popeth rhagddo yn hwylus, yn ôl ac ymlaen, hyd nes yr oedd wedi gorffen llyfnu'r cae. Ond, pa fodd yr oedd stopio'r peiriant? Nid oedd ganddo yr un syniad ac ni feiddiai fynd yn ôl i'r clos oherwydd y llethr a'r troeon. Bu'n ffodus fod ganddo un nodwedd werthfawr – ie, meddylgarwch. Wrth barhau i lyfnu a meddwl yn ddwys, cafodd y syniad mai doeth fyddai dal ati hyd nes i'r olew yng nghrombil y tractor ddod i ben. Dyna a wnaeth a disgynnodd heb gael unrhyw niwed a'r cae dipyn yn fwy gwastad nag a fu erioed. Beth pe bai'n berson gwyllt, difeddwl? Annoeth fyddai ceisio amgyffred y canlyniadau.

Treuliodd y rhan olaf o'i oes yng nghartref ei fab a'i ferch-yng-nghyfraith, Teifi Castle, Cwmann. Hunodd ar Hydref 10fed, 1969 wedi cyrraedd ei bedwar ugain a deg, a chladdwyd ef yn y darn tir a oedd unwaith yn eiddo iddo.

**William M. Jones**

Ffyddlondeb oedd un o nodweddion amlycaf William Morgan Jones, Cwmdawe. Roedd absenoli ei hun o oedfa fel pe bai'n drosedd anfaddeuol iddo. Eisteddai yn yr un sedd ymhob oedfa, sef y sedd flaenaf ar y dde, wrth edrych o'r pulpud, yn y rhes ger y mur. Eithriad oedd gweld ei sedd yn wag. Pe digwyddai hynny, 'roedd yna reswm digonol am ei absenoldeb. Cerddai drwy bob tywydd i'r Deml ar ochr y bryn. Mae'n wir nad oedd y ffordd yn bell am mai ar dir ei fferm y codwyd y capel presennol ym 1844.

Brawd Tom Llundain ydoedd – gŵr tawel, diymhongar, yn mynegi ei gyflwr meddyliol yn eglur ar ei wyneb. Gwrandawai'n astud ar y bregeth bob Sul ond ni cheir tystiolaeth iddo erioed roddi ei farn ynglŷn â chynnwys pregeth nac anghytuno chwaith

â rhyw osodiad o eiddo'r pregethwr. Nid oedd y duedd i gynhyrfu'r dyfroedd fel pe bai'n cydymffurfio â'i natur gydnaws.

Ni fyddai William Jones yn ymuno yn y gân mewn oedfa ond gellid synhwyro ei fod yn mwynhau gwrando ar y gynulleidfa yn canu'r emynau. Roedd ei ymateb mewn Cwrdd Eglwys yn ddyrchafol. Wedi i'r gweinidog roi'r mater dan sylw gerbron yr aelodau, deuai'r adeg i gael cynigydd, un ffordd neu'r llall. Nid oedd angen aros yn hir cyn y byddai William Jones yn 'cadw'r rhod i droi' a 'tharo'r hoelen ar ei phen'. Drwy gael aelod ymatebol fel hwn y câi'r gweinidog sicrwydd y byddai popeth hanfodol yn cael ei gyflawni.

Fel ei frawd, bu yntau'n ddiacon yn y capel, a hynny am ddeugain a saith o flynyddoedd. Roedd yn un o'r ymddiried-olwyr hefyd. Ni feddai'r ddawn i gymryd rhan yn gyhoeddus ond rhoddai symbyliad i eraill i ddarllen rhannau o'r Gair neu annerch gorsedd gras. Âi o gwmpas i gasglu'n fynych a gofalai gyfrannu'n deilwng ei hun at bob mudiad a fyddai'n galw am gymorth. Gellid canfod ei fod yn cael boddhad wrth wneud yr hyn a fedrai yn y capel.

Meddai ar elfen o ddireidi er mai gŵr tawel ydoedd. Ni fyddai byth yn mynd heibio iard yr ysgol gerllaw, amser chwarae, na fyddai'n ymuno yn yr hwyl fel glaslanc, ac yntau, ar y pryd, dros ei drigain a deg. Roedd yn hoff o blant ac yn mwynhau eu cwmni. Felly, pan gaewyd yr Ysgol Gynradd yn y pentref ym 1959, teimlai ef y golled gymaint â neb.

Mawr oedd ei ffyddlondeb i bob agwedd ar waith y capel. Cymerai ddiddordeb arbennig yn yr adeiladau, gan gyfeirio'n amserol at unrhyw atgyweiriadau angenrheidiol. Dichon iddo sylweddoli mai ei ddyletswydd ef oedd cadw llygad ar bob llechen, cafn a charreg o gofio mai ar dir ei fferm y safai'r adeiladau. Byddai'n gwneud ei ran hefyd pan eid ati i gymennu'r mynwentydd a'r perthi. Yn wir, gellir ei goffáu fel ymddiriedolwr cydwybodol.

Mae Cwmdawe yn un o'r ffermydd hynny sy'n ymylu ar lawer o'r heolydd plwy yn yr ardal. 'Does nemor un o'r caeau heb fod heol blwy yn mynd heibio iddo. Golyga hynny fod mynediad i bob cae yn hawdd gan nad oes angen mynd drwy nifer o gaeau eraill er mwyn cyrraedd un cae arbennig. Gall fod yn fantais ar dywydd gwlyb hefyd am fod heol galed i fynd at y rhan fwyaf o'r clwydi. Er hynny, ceir anfanteision

hefyd. Rhaid cadw'r cloddiau, y perthi a'r clwydi mewn cyflwr da er mwyn sicrhau bod yr anifeiliaid yn ddiogel. Pan fydd nifer o gaeau gyda'i gilydd, mae'n haws i'r amaethwr gadw'r ffiniau'n daclus. Gorchfygodd William Jones yr anfanteision. Âi o gwmpas ei fferm yn gyson, gan gyweirio'r ffens yn ôl yr angen. Felly, anaml iawn y gwelid un o'i braidd yn tresbasu. Gwyddai ef y byddai hynny'n peri trafferth i'w gymdogion ac i'r fforddolion yn ogystal. Un parod ei gymwynas ydoedd ac fe barchai'r ddihareb, 'Câr dy gymydog, ond cadw dy glawdd'.

Collodd ei briod ym 1965 a threuliodd ef y rhan olaf o'i oes yn Annedd, cartre'r henoed yn Llanybydder. Yno y bu farw ar y 5ed o Fawrth, 1977, ac yntau'n dair ar ddeg a phedwar ugain mlwydd oed. Cofir amdano fel un o ffyddloniaid Capel Esgairdawe. Mynnai wneud ei ran i geisio sicrhau parhad yr addoldy hwn er mwyn 'cadw i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu'.

**Thomas Jones**

Ganed Thomas Jones, Gwar-coed yn Llywele Mawr, Cwm Gorlech. Fel pob brogarwr, carai yntau ardal ei febyd yn angerddol. Cawn gipolwg ar ei fywyd cynnar yn ei gyfrol, *Manion y Mynydd* a gyhoeddodd ym 1938. Ynddi, ceir telynegion sy'n mynegi'n eglur ei hoffter o'i fro a hefyd o'r gymdeithas a drigai yno. Teg yw cyfeirio at rai o'r cerddi hyn. Mae'r gynta'n y gyfrol yn gyflwynedig ganddo i goffáu ei dad a'i fam:

Fy ngwynfyd gynt oedd dilyn mam
  Yn ôl a blaen ar hyd y clos,
A dilyn 'nhad o gam i gam
  Ar ôl yr ŵyn dros erwau'r rhos.

Bum yn eu cwmni wedyn dro,
  A gwelais droeon chwerwa'u byd;
Ac er im' gilio o'r hen fro
  Mentrais eu dilyn hwy o hyd.

Gwelais hwy'n troi i'w holaf daith
  Dros lwybyr na ddychwelant mwy,
Nid ofnaf innau'r siwrnai chwaith,
  Mi fentra' mlaen i'w dilyn hwy.[3]

Yn y gerdd, 'Bro fy Mebyd' dengys y bardd ei siom a'i hiraeth pan werthwyd Cwm Gorlech i'r Comisiwn Coedwigaeth. Yn lle'r deri Cymreig a dyfai yno gynt i addurno'r cwm, ceir bellach,

fforestydd o goed estron. Ond, er y siom a'r gofid, mae yna le i ddiolch:

Fe werthwyd Cwm Gorlech yn gyfan,
  O'r blaenau i lawr hyd y gro;
Heb fodd na chyfle gan fugail tlawd
  Bwrcasu'r un gyfran o'i fro.

Fe werthwyd arosfa'r ddiadell,
  A'r gorlan na ŵyr neb ei hoed,
A'r deri Cymreig oedd yn addurn y Cwm,
  I blannu rhyw estron goed.

Amharwyd y llwybyr i Fethel,
  A briw yw pomprenni'r nant;
Ddaw plentyn byth mwy i wylio'r ddawns,
  Na henwr i wrando'r siant.

Mae'r Cwm heb nac ydfaes na medel,
  Distawodd y miri di-frad,
A than y morthwyl heb ofyn i mi
  Fe werthwyd hen luest fy nhad.

Diolchaf i'r Nefoedd er hynny,
  Ynghanol y difrod a'r cam,
Methwyd â gwerthu hen fywyd y Cwm,
  Na choffa fy nhad a 'mam.[4]

Dyma enghraifft ohono'n dychwelyd i fro ei febyd ymhen rhai blynyddoedd. Mae'n dwyn i gof y pethau a fu, ond sydd erbyn hyn wedi diflannu'n llwyr:

CWM GORLECH

'Roedd cartref y gân yng Nghwm Gorlech
  Ac yno'r oedd cartref fy nhad,
A chofiaf e'n diolch am olud di-dor
  Ei fwthyn bach llwm yn y wlad.

A minnau o fewn y cylch bychan
  A wasgai fin nos at y tân
I ganu alawon yn iaith y cwm,
  A'r nant yn cyfeilio i'r gân.

Doi'r gwcw i dreulio'i holl wyliau
  Ar bren ger y tŷ, er cyn co';
A gwyddai y wennol tuhwnt i'r don
  Mai aur i gyd oedd ei do.

Bum ganwaith bron drysu ben bore
  Ym miri dihalog y wlad,

A theimlwn mai fi oedd arweinydd y côr
  A gasglai wrth fwthyn fy nhad.

'Rwyf eto am dro yng Nghwm Gorlech
  Ond clwyfus fy nghalon yn awr,
Mae un maen arall ym Methel ar lan
  A'r parwyd fan acw ar lawr.[5]

Ceir gan Thomas Jones nifer o adroddiadau i blant yn ei gyfrol a'r mwyafrif ohonynt yn ymwneud â byd natur. Yn ôl ei eiriau ef, – 'iaith ac arddull maes a mynydd' a ddefnyddiodd. Dyma'r hyn a ddywed David Williams, gweinidog Esgairdawe, 1913-1928, yn ei air byr at y darllenydd ar ddechrau'r gyfrol:

> Yng ngholeg anian y myfyriai, a gwelir ceinion natur yng ngwead ei farddoniaeth, a ffigyrau o fyd natur yn cyfoethogi'r iaith.[6]

Dechreuodd y bardd a'i briod eu byd ym 1913 yng Nghwarcoed, fferm ar un o fryniau Esgairdawe. Magasant bump o blant a rhoddwyd y lle dyladwy i addysg, crefydd a diwylliant ar yr aelwyd. Codwyd un o'r meibion, sef y Parchedig J. Samuel Jones, i'r weinidogaeth. Ceir ei hanes o dan bennawd arall. Ymaelododd y teulu yng Nghapel Esgairdawe, lle rhoddodd Thomas Jones wasanaeth gwerthfawr mewn llawer cyfeiriad. Etholwyd ef yn ddiacon ym 1930 ac yn ymddiriedolwr yn yr un flwyddyn. Cymerai ran mewn cyfarfodydd gweddi ac fe deimlwyd cyffyrddiadau ysbrydol droeon pan fyddai ar ei liniau. Cyfansoddodd rai emynau. Ceir un ohonynt yng *Nghaniedydd yr Annibynwyr,* sef emyn 756. Er bod dros wyth mlynedd ar hugain oddi ar ei farw a'i fod wedi cyhoeddi'r emyn hwn cyn hynny, mae'n amlwg iddo ragweld y dioddefaint mawr a'r creulondeb sy'n wynebu cymdeithas heddiw ymhob rhan o'r byd. Dyma'r emyn hwnnw:

Yma'n hedd y mynydd Sanctaidd,
  Iesu annwyl, wele ni,
Gad i'th weision weld o'r newydd
  Fawredd dy ogoniant Di.

Cuddier ni dan Ddwyfol adain
  Yn dy gwmni, Iesu mawr,
Torred arnom drwy'r cymylau
  Glaer oleuni'r nefol wawr.

Tyner eiriau'r Tad fo'n disgyn
  O'r uchelder ar ein clyw,
Yn cyhoeddi bod i'r euog
  Hedd tragwyddol ym Mab Duw.

Gad in weld yng ngolau'r mynydd
  Fyd dolurus dan ei bla,
Dysg i ninnau drin ei friwiau
  Yn dy nerth, O! Feddyg Da.

Pan ymdrinnid â rhyw fater pwysig mewn Cwrdd Eglwys, ni fyddai'n cymryd yr hawl i fynnu ei ffordd ei hun. Yn hytrach, awgrymai'n wylaidd ac yn ostyngedig y gellid symud i ryw gyfeiriad arbennig. Rhoddai hyn oleuni ar rai pynciau dyrys a daethpwyd i benderfyniadau doeth drwy ei sylwadau ef. Ond yr hyn a saif ar gof nifer o aelodau'r capel heddiw yw'r modd yr âi Tom Gwar-coed oddi amgylch i rannu'r bara a'r gwin mewn Oedfa Gymun. Cerddai'n hamddenol ac urddasol gan synhwyro i'r byw yr hyn a olygai'r symbolau hyn iddo ef ac eraill o'r un oed ag ef. Nid gwiw fyddai cyflawni'r weithred bwysig hon yn ddifeddwl a thrwsgl. Creai awyrgylch a gâi ddylanwad dyrchafol ar y rhai a dderbyniai'r elfennau o'i law.

Eisteddai ef a'i briod yn yr ail sedd o'r cefn ar ganol llawr y capel. Myfyriai ar gynnwys y bregeth o'r dechrau i'r diwedd. Ni chymerai ran yn y canu, ond gwelid ef yn symud ei wefusau fel pe bai'n ynganu'r geiriau'n dawel wrtho'i hun, – y geiriau ac nid y gerddoriaeth a apeliai ato.

Fel bardd cefn gwlad, cymerai ddiddordeb mewn dysgu plant yr ardal i adrodd. Yn negawdau cynnar y ganrif hon, cynhelid Eisteddfod yn y capel yn flynyddol a da o beth oedd cael rhywun i hyfforddi'r plant lleol yn y gelfyddyd o adrodd. Dichon iddo adrodd ei hun yn ei ddyddiau cynnar, ond, beth bynnag am hynny, 'roedd yn feistr ar ei waith. Dechreuodd gartref drwy ddysgu ei blant ei hun, y rhai a ddefnyddiodd eu dawn mewn nifer o sefydliadau yn yr ardal. Cafwyd llawer o hwyl wrth feistroli ambell ddarn megis 'Y Border Bach' gan Crwys. Yn y cyfnod hwnnw, 'roedd ystumiau yn boblogaidd ac yn ychwanegu at berfformiad yr adroddwr. Felly, 'roedd rhaid ymarfer yn gyson er mwyn cofio'r geiriau a'r ystumiau, gan gynnwys y cuwch neu'r wên. Darnau yn ymwneud â byd natur oedd yn mynd â'i fryd yn bennaf. Dyma un ohonynt, a welir yn ei gyfrol *Manion y Mynydd:*

LLEIDR AFALAU

'Roedd gennyf bren yn glwstwr
O 'falau bochgoch mawr,
Y ddoe, yr oedd yn bictiwr,
Ond mae heb un yn awr.

Daeth rhywun heibio neithiwr
I'r berllan, welwch chwi;
O gwae yr hen ysbeiliwr
Fu wrth fy llwyn bach i.

Mae'n arfer dod, mae'n debyg,
Bob Hydref ar ei hynt;
Pwy oedd y gŵr bonheddig?
Ei enw – ydyw – Gwynt.[7]

Yn ogystal ag ysgrifennu darnau adrodd i blant, ceir nifer o ddarnau ar gyfer oedolion yn ei gyfrol. Un a fu'n boblogaidd ar un adeg yw 'Rhys y Felin'. Hiraeth am y dyddiau gynt yw byrdwn y gerdd sy'n dechrau gyda'r geiriau:

Yr Hydref oedd, a Rhys yn gwylio'r Rhod,
Tymor prysur y malu a'r gogrwn gynt,
Gwrandawsai yntau ar ei waetha' am sŵn
Y certi llawn yn troi i'r heol fach, –
Y sŵn na thorrai ar ei glustiau mwy;
A'r nant yn chwyddo ar drum y mynydd draw,
A disgyn dros y creigiau'n ferw gwyllt,
A throi i chwerthin wrth y gored cul
Oedd bellach yn rhy friw i ddal y lli.[8]

Gwerthwyd y tyddynnau i Saeson ers blwyddyn a 'lle bu sgubau'n drwch' ceid yn awr fforestydd tywyll. Collwyd y cyfan a oedd o werth – 'A theimlai Rhys yn unig'.

Roedd yn anodd i'r melinydd ddygymod â'r golygfeydd dieithr ar y bronnydd gyferbyn â'i felin. Dywed y bardd nad oedd yno na gwedd nac oged ac ofer disgwyl clywed, mwyach, sŵn y cryman yn torri'r cnwd na gweld y llwythi ŷd yn cyrchu i'r felin:

Oer oedd melin wag.
Mynasai ffoi, ond gormod iddo ef
Fai gado'i hoff dreftadaeth yn y cwm
Dan estron law; ac onid oedd y Rhod
A'r dŵr yn Gymry o hyd, ac uwchlaw gwerth?[9]

Roedd yn rhaid i Rys fodloni ar sŵn yr olwyn yn troi, a hithau'n dwyn i gof hen storïau nad oedd yn wybyddus i neb ond iddo

ef a hithau. Pan chwarddai un, fe chwarddai'r llall a chydwylent yn ogystal. Mae'r bardd yn diweddu'r gerdd gyda'r melinydd yn cyfarch y rhod. Er bod ei chant a'i llwyau'n fylchau, mae'n ei hannog i ddal ati i droi er mwyn malu'r 'llwythi a fu'. Gŵyr, er hynny, y daw'r dydd pan fydd y rhod yn crafu ei holaf dro a'i ddymuniad yw cael ymadael â'r hen gwm pan fyddai hynny'n cael ei wireddu:

Ond gad i mi ffarwelio â'r fro
A thithau'n rhygnu ar hanner tro.[10]

Bu Thomas Jones yn cystadlu mewn eisteddfodau hefyd ac enillodd amryw wobrau. Ei enw barddol oedd 'Brynderi' sy'n mynegi ei agosatrwydd at fyd natur. Rhoddodd y gorau i'w waith fel amaethwr yn nhymor yr Hydref, 1954 a symudodd ef a'i briod a rhai o'r teulu i Bencader. Ymaelododd gyda'r Annibynwyr yn y Tabernacl. Eithr ni roddodd heibio ei gelfyddyd fel bardd a gwelwn iddo feistroli'r gynghanedd, –

Hen Geffyl

BRENIN y wedd a'r braenar, – ei ynni
A dry'n henaint cynnar;
Gedy'r ôg a daw o'r âr
I dawelwch y dalar.[11]

Hunodd y bardd-amaethwr ar Fedi 14eg, 1963 yn bedwar ugain a thair mlwydd oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Pencader.

**Dafydd Jones**

Un o gymeriadau bro Esgairdawe oedd Dafydd Teiliwr, fel yr adwaenid ef gan bawb. Gwaetha'r modd, 'does neb yn yr ardal erbyn heddiw y gellir ei wahaniaethu oddi wrth bobl eraill yn rhinwedd ei grefft. Tybed a oedd y modd yma o gyfarch ac adnabod rhywun yn cael ei ystyried yn anrhydedd gan y crefftwr ei hun.

Treuliodd Dafydd ei oes yn y filltir sgwâr a dywedir na wnaeth ddilledyn i neb erioed nad oedd yn ffitio'n berffaith. Tebyg iddo brofi mai'r gyfrinach er mwyn sicrhau perffeithrwydd ymhob gorchwyl o'r math yma yw mesur ddwywaith a thorri unwaith. Trigai gyda'i deulu mewn bwthyn bychan a elwid "Betty-gate". Bu hwn yn fan cyfarfod holl fechgyn y gymdogaeth yn y cyfnod hwnnw. Ymdrinnid â phynciau'r dydd,

tra byddai Dafydd yn gwnïo'n ddiwyd ac yn ymuno yn yr ymddiddan yn awr ac yn y man. Roedd bwthyn y teiliwr ac efail y gof yn ganolfannau diwylliant yn y cylch, a daethpwyd i synhwyro teithi meddwl pob un o gyfrannwyr y sgyrsiau diddorol.

Wedi i'r bwthyn ddirywio gyda phwys a gwres y dydd, symudodd y teulu i Dŷ'r Capel. Yn anffodus, collodd Dafydd ei briod drwy ddamwain adeg y cynhaeaf gwair. Hunodd ar Orffennaf 9fed, 1933, a hithau ond hanner can mlwydd oed. Claddwyd hi ym mynwent Capel Rhyd-y-bont ger Llanybydder. Ar ôl i'w ferched adael cartref, bu'r teiliwr yn byw ar ei ben ei hun gerllaw'r capel. Dyma'r cyfnod y dechreuodd fynychu'r oedfaon a'r Ysgol Sul yn gyson.

Defnyddiai'r festri uwchben y Tŷ Capel fel siop waith. Eisteddai ar y llawr, gan groesi'i goesau yn ôl arfer pob teiliwr. Roedd popeth ar hyd y lle – defnyddiau, siswrn mawr, edau, pinnau, nodwyddau, padell ac ychydig o ddŵr ynddi, haearn smwddio anferth a theclyn a alwai'n 'slibwrt'. Rhaid oedd gweld hwn cyn gwybod beth a olygai'r gair. Ie, 'sleeve-board' yn Saesneg, ond 'roedd Dafydd wedi'i Gymreigeiddio i'r fath raddau fel y gellid tybio mai gair Cymraeg ydoedd. Wrth gwrs, ceid peiriant gwnïo enfawr wrth law a thanllwyth o dân yn y grat. Dyna'r olygfa yn y festri pan fyddai'r teiliwr wrth ei waith. Ond beth am noson y Cwrdd Gweddi neu gyfarfod o'r Gymdeithas Ddiwylliadol? Roedd offer y teiliwr wedi diflannu – dim siw na miw am ddim, a'r cadeiriau, y ffyrymau a'r bwrdd yn disgleirio'n daclus yn eu lle a phopeth yn sanctaidd unwaith eto.

Gweithiwr prysur yn y capel hwn oedd Dafydd Jones. Er hynny, ni etholwyd ef yn ddiacon. Ni fu'n godwr canu swyddogol, mae'n debyg, ond cymerai at y gwaith pan fyddai hwnnw'n absennol. Roedd ganddo lais tenor melodaidd, addas at ganu emyn. Bu'n cynrychioli'r eglwys mewn cystadleuaeth canu emyn i rai dros hanner cant mewn Eisteddfod Gylch yn Ffaldybrenin un tro. Yr emyn y flwyddyn honno oedd 'Y Gŵr wrth ffynnon Jacob' ar y dôn, 'Bryniau Cassia'. Canodd yn y fath fodd fel y cafwyd perffaith ddistawrwydd a'r beirniad, wedi llwyr ymgolli yn y datganiad, yn rhoi ei ysgrifbin i lawr i'w fwynhau. Dyna'r gystadleuaeth hawsaf a gafodd yr un beirniad i'w chloriannu erioed!



*Tŷ'r Capel*

Cedwid Ysgol Gân yn y capel bob yn ail nos Sul. Yn ddieithriad bron, Dafydd oedd yn hyfforddi'r bobl ifainc. Dysgid emyn-donau, anthemau a chaneuon traddodiadol. Sut y gwyddai'r gŵr hwn bob tôn mewn Rhaglen Cymanfa Ganu, a hyd yn oed yn *Sŵn y Jiwbili?* Efallai i hynny beri eiddigedd ymhlith rhai o'r cantorion wrth iddynt orfod dal ati i ganu ambell emyn drosodd a throsodd. Darllenai'r teiliwr gerddoriaeth o'r sol-ffa gyda chywirdeb a mynnai gael cywirdeb oddi wrth bawb arall. Disgwyliai hynny gan yr organydd hefyd. Nid gwiw mynd yno heb ymarfer y gwaith yn drwyadl. Pan na fyddai'n bosibl cael cymorth organ neu biano, deuai 'pitch-fork' o boced ei wasgod yn weddol sydyn. A oes angen gofyn sut y dysgodd bob tôn a'r teclyn hwn mor gyfleus at ei wasanaeth bob amser? Byddai'n rhoi hyfforddiant ar gyfer Cymanfaoedd Canu, Cyfarfodydd Cystadleuol, Eisteddfodau a Chyngherddau lleol. Mawr oedd y brwdfrydedd wrth ddysgu unawdau, deuawdau, pedwarawd, wythawd a chôr. Teg yw cyfeirio at un aelod o'r capel a fyddai'n ymuno â'r Ysgol Gan yn achlysurol, sef William Morgan, Maes-y-gwiail Fach. Meddai ar lais bas dwfn anghyffredin a roddai sail gadarn i'r canu a chyferbyniad llwyr i lais tenoraidd y teiliwr. Rhaid cyfaddef mai prin oedd y gwahanol leisiau ar wahân i'r rhai a ganai soprano. Felly,

byddai cymorth baswr fel hwn yn cyfoethogi ansawdd y canu, ac, o ganlyniad, wrth fodd yr hyfforddwr.

Cafwyd hwyl arbennig un nos Sul wrth ymarfer yr anthem, 'Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn', gan Thomas Davies o Lyn Ebwy. Anthem gymharol fer yw hon ond ceir ynddi lawer o amrywiaeth a chyfle i'r pedwar llais i ddangos eu dawn yn unigol ar ambell gymal. Wrth gwrs, cymerwyd rhan y tenor a'r bas gan Dafydd Jones a William Morgan, gydag eraill yn ceisio eu hefelychu a'u dilyn. Ond, yn goron ar y cyfan, yr oedd yr 'Amen' a geir fel uchafbwynt ar ddiwedd yr anthem, gyda'r bas yn ailganu'r gair yna bedair gwaith ar ôl y pedwar llais. Dyma'r pryd y gwelwyd ac y sylweddolwyd cadernid anhygoel y llais nodedig hwn. Mae'r modd y caiff ambell un ei freintio â dawn fel hon yn ddirgelwch, ac yn fwy felly, wrth ganfod y gallu i reoli a defnyddio'r ddawn honno yn gyhoeddus er lles y gymdeithas. Ni fyddai'r teiliwr yn fyr ei ganmoliaeth ar noson fel hon er uched ei safon ef.

Bu Dafydd Jones yn athro'r Ysgol Sul hefyd. Cymerai'r Ysgrythur yn llythrennol. O ganlyniad, ceid dadl frwd rhyngddo ef ac hynafgwr arall, sef Josi'r gof, a fynnai ddehongli'r ystyr ddyfnaf bob amser. Tybed a roddai hyn gyfle i rai o'r disgyblion i grwydro oddi wrth y wers a thrafod pethau eraill o ddiddordeb iddynt, tra oedd eraill yn elwa oddi wrth y drafodaeth efengylaidd ac yn trwytho eu ffydd Gristnogol.

Gan mai yn Nhŷ'r Capel y trigai Dafydd, ef a fyddai'n gyfrifol am 'gadw'r mis'. Adwaenai bob gweinidog a lleygwr led-led y wlad. Treulient amser diddorol ar ei aelwyd, yn enwedig rhwng oedfa'r prynhawn a'r hwyr. Cyn amser moduron, bu'n lletya pregethwyr droeon. Bu'n drysorydd y capel am gyfnod. Wrth gyflawni'r gwaith hwn, arferai fynd yr 'ail filltir'. Os digwyddai rhai aelodau fod yn absennol o'r cyfarfodydd, yn enwedig tua diwedd blwyddyn, âi Dafydd o dŷ i dŷ i gasglu'r cyfraniadau. Pan gynhelid noson o adloniant o dan nawdd y capel gofalai ef fod nifer dda o'r tocynnau wedi'u gwerthu ymlaen llaw. Gwyddai mai dyma'r ffordd i sicrhau elw ariannol i goffrau'r eglwys. Ie, gŵr prysur ydoedd. Ef, gan amlaf a ddarllenai bennod neu salm i ddechrau cwrdd gweddi. Cyfeiriai'r gweinidog, y Parchedig Giraldus Jones ato fel ei gurad. Ni welwyd ef yn mynd ar ei liniau ond ef a fyddai'n gyfrifol am y cyhoeddiadau o dro i dro. Rhai o'i ddylet-

swyddau eraill oedd glanhau'r capel, cynnau'r lampau olew a chadw tân yn y gwresogydd glo ar gyfer twymo dŵr i wresogi'r adeilad. Roedd hyn cyn dyfodiad trydan i'r ardal. Er mor niferus oedd ei amrywiol weithgareddau, gŵr dirodres ydoedd.

Ar un adeg, cadwai'r teiliwr siop yn ei gartref. Gwerthai angenrheidiau megis te a siwgr, a phob math o felysion. Roedd ganddo ddigon o gwsmeriaid. Âi'r rhan fwyaf o blant yr ysgol gerllaw yno bob dydd, ar ôl cinio, i wario eu ceiniogau prin. Yn yr haf, byddai diodydd ysgafn yn boblogaidd, oherwydd, yn ystod y tri a'r pedwardegau o'r ganrif hon, ceid hafau poeth a mawr oedd y syched yn y prynhawnau. Arferai Dafydd fynd i Lambed i siopa bob bore Sadwrn, gan gerdded tua thair milltir i ddal bws ar y groesffordd ger Tafarn Jem. Deuai â llwyth go drwm o bapurau newydd o siop newyddiadurwr yn y dre – papurau wythnosol yn bennaf, – y *Welsh Gazette,* y *Carmarthen Journal* ynghyd â'r *Farmer's Weekly* i ddiwallu gwybodaeth amaethyddol ffermwyr y fro. Nid gwiw iddo ddod adre heb y pecyn pwysig hwn, boed law neu eira. Deuai nifer dda o'r ardalwyr i'w cyrchu, naill ai ar y Sadwrn neu'r Sul er mwyn cael y newyddion diweddaraf cyn gynted â phosib.

Nid oedd gofod i segura ar amserlen Dafydd, – gŵr lluniaidd o gorff a sionc ei gerddediad. Pe bai pob bod dynol mor debyg i forgrugyn ag ydoedd ef, ni fyddai'r un gorchwyl yn aros yn hir heb gael ei gyflawni. Yn aml, gwelid ef yn cerdded i fyny heibio'r ysgol gan gario canghennau byrion, gweddol drwchus, ar ei ysgwydd. Fe'i cludai o "Betty-gate", ei hen gartre, a byddai'n eu llifio'n goed tân yn stabl y Tŷ Capel. Pan ddeuai llwyth o lo i'r ysgol o Ddyffryn Aman, ni fedrai'r gyrrwr fynd â'r lori i mewn at ddrws y tŷ glo y tu cefn i'r ysgol am fod y fynedfa i'r iard yn rhy gul. Felly, 'roedd yn rhaid ei ddadlwytho wrth y glwyd. Ymhen ychydig funudau, byddai Marged Morgan, Bryneithin, gofalwraig yr ysgol yno, ei chwaer Neli, a'r teiliwr, wedi gadael ei weithdy, yn cynorthwyo er mwyn cludo'r glo i'w le priodol.

Mae'n wir na wyddai'r gŵr hwn beth oedd unigrwydd, er ei fod yn byw wrtho'i hun ers rhai blynyddoedd. Tŷ'r Capel oedd canolfan y pentref. Ni welid y drws ar gau ac eithrio pan na fyddai'r teiliwr yno. Mawr oedd y paratoadau ar brynhawn Sadwrn erbyn y Sul. Codai'r ffender a'r cadeiriau i ben y bwrdd er mwyn cael y lle yn glir ar gyfer ysgubo a golchi'r llawr.

Cwblhau'r gwaith yn gynnar oedd y nod. Roedd y Sabath yn dechrau yno ar nos Sadwrn ac ni wneid yr un gwaith ond yr hyn oedd wir angenrheidiol, hyd fore Llun. Nid oedd mynychu'r capel deirgwaith bob Sul yn rhoi amser i bethau dibwys eraill i rywun fel ceidwad y capel.

Câi gwmni'r postman, D. Arthur Evans, o Rydcymerau am rai oriau o brynhawn Llun hyd brynhawn Gwener. Ar ôl iddo rannu'r llythyrau i gartrefi'r fro, cyrhaeddai'r postman yn ôl yn y pentref tua un o'r gloch. Byddai'n bwyta ei ginio yn y sied a ddarparwyd iddo gan y Swyddfa Bost, yn darllen ei Feibl ac yn treulio cyfnod yn ddyddiol yn festri'r capel, cyn agor y blwch llythyrau am dri a chychwyn yn ôl am Rydcymerau. Trafodid nifer o bynciau yng ngweithdy'r teiliwr, a'r ddau'n cyfrannu at y sgwrs, gan drafod digwyddiadau diweddaraf y ddwy ardal a phroblemau'r wlad a'r byd yn gyffredinol. Pe bai'r sgyrsiau hyn wedi eu recordio, yn ôl arfer yr oes fodern hon, byddent yn werthfawr.

Cyn mynd i'r capel, byddai rhai o aelodau'r Ysgol Sul yn galw yn Nhŷ'r Capel, yn arbennig ar brynhawn Sul. Yno y byddai Dafydd yn eistedd ger y tân gan smocio'i bibell yn hamddenol. Roedd yn rhaid gweld yr olygfa hon cyn credu ei bod yn bosibl i'r teiliwr ymlacio fel hyn. Pe digwyddai rhywun gyfeirio at afiechyd un o'r ardalwyr, byddai ef yn ymateb drwy ddweud, "Does un dyn heb fod yna rywbeth yn ei boeni'n gorfforol bob dydd. Ma' rhywbeth yn poeni pawb, ond fe alle fod yn waeth. Ma' gyda ni le i ddiolch".

Erbyn dechrau 1956, collodd ei iechyd a gorfu iddo adael y Tŷ Capel a mynd i Gwmdu, ger Llandeilo i gael ymgeledd gan ei ferch a'i theulu. Bu farw ar y 24ain o Fai y flwyddyn honno yn ddeunaw a thrigain mlwydd oed. Claddwyd ef ym meddrod ei briod yn Rhyd-y-bont. Gadawodd fylchau niferus. Mewn gwasanaeth coffa iddo, cymerodd y gweinidog ei destun o Lyfr Cyntaf Samuel, 20:25, – 'A lle Dafydd oedd wag'.

[1] *Hen Wynebau,* D.J. Williams, 1939, t. 11
[2] Y Tyst, Ionawr 16eg, 1958, t. 4
[3] *Manion y Mynydd,* Thomas Jones, 1938, t. 9
[4] Ibid, t. 14
[5] Ibid, t. 49
[6] Ibid, t. 5
[7] Ibid, t. 58

[8]Ibid, t. 77
[9]Ibid, t. 78
[10]Ibid, t. 79
[11]*Y Genhinen,* Cyfrol VIII, 1957-58, t. 52